# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 2

GORDEWDRA

### 2 Strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra: cyhoeddi ac adolygu

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra, a lleihau lefelau gordewdra, yng Nghymru.

(2) Rhaid i'r strategaeth—

(a) pennu amcanion y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddant, os y'u cyflawnir, yn cyfrannu at atal gordewdra;

(b) pennu amcanion y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddant, os y'u cyflawnir, yn cyfrannu at leihau lefelau gordewdra;

(c) nodi sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyflawni'r amcanion penodedig.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth—

(a) ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y cyhoeddir y strategaeth am y tro cyntaf, a

(b) ar ddiwedd pob cyfnod dilynol o dair blynedd.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r strategaeth ar unrhyw adeg.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru yn diwygio'r strategaeth, rhaid iddynt gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol—

(a) cyn iddynt gyhoeddi'r strategaeth am y tro cyntaf, a

(b) ar ôl hynny, cyn pob adolygiad o dan is-adran (3).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, RHAN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 04 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 2 mewn grym ar 4.10.2017 gan O.S. 2017/949, **ergl. 2(a)**

## 3 Gweithredu'r strategaeth genedlaethol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a bennir yn y strategaeth a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar o dan adran 2.

(2) Yn dilyn pob adolygiad o'r strategaeth o dan adran 2(3) rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad cynnydd.

(3) Mae adroddiad cynnydd yn adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion a bennir yn y strategaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I4** A. 3 mewn grym ar 4.10.2017 gan O.S. 2017/949, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, RHAN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 04 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2